

CYFARFOD	BWRDD PENSIWN
DYDDIAD	3 HYDREF 2022
TEITL	Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol Cysylltiedig â'r Hinsawdd ('TCFD') - Ymgynghoriad 'TCFD'
PWRPAS	Hysbysu'r aelodau fod Llywodraeth San Steffan ('DLUHC') yn ymgynghori ar gynigion ar gyfer gofynion newydd ar awdurdodau gweinyddu CPLIL.
ARGYMHELLIAD	Nodi'r bwriad i baratoi ateb ar ran y Gronfa Bensiwn Gwynedd
AWDUR	Dafydd L. Edwards, Cyfarwyddwr y Gronfa

1. Ymgynghoriad Llywodraeth y DU

Gydag effaith newid hinsawdd yn cael ei themlo'n fwy difrifol ar draws y byd, ar y 1af o Fedi lansiodd Adran Lefelu i Fyny, Tai a Chymunedau ('DLUHC') Llywodraeth y DU ymgynghoriad ar lywodraethu ac adrodd ar risgiau hinsawdd yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL).

Yn ôl y disgwyl, mae'r cynigion am ei wneud yn ofynnol i awdurdodau gweinyddol y CPLIL asesu, rheoli ac adrodd ar risgiau sy'n ymwneud â'r hinsawdd, yn unol ag argymhellion y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol Cysylltiedig â'r Hinsawdd ('TCFD'), a disgwylir i reoliadau ddod i rym erbyn Ebrill 2023.

Mae'r ymgynghoriad a'r cynigion yma'n berthnasol i holl gronfeydd CPLIL Cymru a Lloegr, ac fe'u nodir ymhen y ddolen ganlynol –

[Local Government Pension Scheme \(England and Wales\): Governance and reporting of climate change risks - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/consultations/local-government-pension-scheme-England-and-Wales-governance-and-reporting-of-climate-change-risks)

2. Amserlen Ymgynghori

Dyddiad cau'r ymgynghoriad yw'r 24^{ain} o Dachwedd 2022. Byddwn yn paratoi ymateb drafft ar ran Cronfa Bensiwn Gwynedd i'w gymeradwyo ym Mhwyllgor Pensiynau'r 14^{eg} o Dachwedd.

3. Argymhelliad

Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r bwriad a gwybodaeth.